# Is-adran Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru

# Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## TRWYDDED I GYMRYD COCOS o'r Ardal a ddiffinnir isod o'r cyfnod 4 Chwefror.

**MAE'R DRWYDDED HON** yn rhoi'r hawl i Ddeiliad y Drwydded bysgota am gocos a chymryd cocos o'r ardal a ddiffinnir yn yr Atodlen i'r drwydded hon 'Traeth Whiteford', yn ddarostyngedig i'r Amodau isod.

**AMODAU:**

1. Dim ond Deiliad y Drwydded sy'n cael pysgota am unrhyw gocos o'r ardal a'u cymryd o'r ardal. Ni all unrhyw berson arall gynorthwyo Deiliad y Drwydded ac ni ellir trosglwyddo'r Drwydded hon i unrhyw berson arall.
2. Caniateir i Ddeiliad y Drwydded bysgota am gocos a chymryd cocos o unrhyw bysgodfa o fewn yr Ardal chyn belled nad yw ei wedi ei chai yn unol â Gorchymyn Rheoli Pysgota a Thrwyddedu Cocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024.
3. Mae'r Drwydded hon yn ddilys o 00:01 ar 4 Chwefror 2025.
4. Rhaid i Ddeiliad y Drwydded fod â thrwydded ddilys a bod yn barod i roi eich manylion personol i Swyddog Llywodraeth Cymru neu unrhyw Swyddog Gorfodi Morol pan ofynnir i chi wneud hynny er mwyn cadarnhau pwy ydych a bod gennych drwydded ddilys gan Lywodraeth Cymru.
5. Rhaid i Ddeiliad y Drwydded wneud adroddiad llawn a gwir ("ffurflen ddalfa") o'r cocos sy'n cael ei gymryd o'r ardal yn ddyddiol i'r porth pysgodfeydd ar-lein Gwneud cais am drwydded bysgota | LLYW.CYMRU **BOB DYDD**. Rhaid i'r ffurflen ddalfa nodi dyddiad, lleoliad a chyfansymiau (mewn cilogramau) pwysau byw'r cocos a gymerwyd o'r Ardal. Os yw'n briodol, rhaid i'r ffurflen ddalfa nodi na chymerwyd unrhyw gocos.
6. Ni chaniateir i unrhyw berson bysgota, cymryd neu dynnu cocos rhwng hanner awr ar ôl machlud haul ar unrhyw ddiwrnod a hanner awr cyn iddi wawrio'r diwrnod canlynol.
7. Rhaid i Ddeiliad y Drwydded gael mynediad i'r bysgodfa a'r tir a symud cocos o'r bysgodfa trwy glwyd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Hills Tor. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi dyrannu nifer cyfyngedig o allweddi sydd wedi'u dosbarthu. Gall mynediad hefyd fod trwy llong a chod ac ardystiad addas.

8. Hefyd, rhaid i Ddeiliad y Drwydded gael mynediad i’r bysgodfa ar hyd y llwybr mynediad a ddangosir ar y map o’r enw "Map Mynediad Traeth Whiteford" yn Atodiad 2 mewn coch.
9. DIM OND ar dydd Mawrth a dydd Mercher y gellir casglu cocos.
10. Rhaid i waith casglu gael ei wneud â llaw neu gyda chribin a gogr rhwyll sefydlog o 17.5mm neu fwy yn unig (yn unol â Gorchymyn Rheoli Pysgodfeydd a Thrwyddedu Cocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024). Mae’r defnydd o fagiau rhwyd wedi’i wahardd. Bydd cocos rhy fach yn cael eu dychwelyd yn syth i’r gwely mor agos â phosibl i’r man lle cymerwyd y cocos rhy fach.

11. Ni ddylai deiliaid trwydded pysgota am gocos, cerdded, gyrru neu parcio eu cerbyd ar welyau cregyn gleision neu amlygiadau mawn clai yn Whiteford. Hefyd peidiwch pysgota am gocos na cerdded neu gyrru cerbyd drwy neu fel arall dynesu at ardaloedd o wely Whiteford yn cael ei ddefnyddio gan ddalwyr wystrys ar yr adeg y cyrchir y gwely neu wrth bysgota.

12. Ni chaniateir cychod sy’n mesur mwy na 10 metr o fewn Aber Casllwchwr i gasglu’r cocos a gymerwyd.

13. Ar ben hynny, diffinnir arwynebedd y dŵr sy’n gorchuddio’r bysgodfa hon fel "ar y môr". Bydd llong sy’n ymwneud mewn unrhyw fodd â chludo personél, offer neu gargo ar gyfer casglu cocos yn yr ardal yn gweithredu’n fasnachol. O’r herwydd, rhaid i unrhyw long sy’n gweithredu at ddibenion masnachol gydymffurfio â deddfwriaeth llongau masnach berthnasol y DU. (Gweler Atodiad D) Mae rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth hon ar wefan MCA, https://www.gov.uk/government/organisations/maritime-and-coastguard-agency neu drwy’r dolenni isod:

    OS2016/354 – Rheoliadau Llongau Masnach (Cychod Gwaith Bach a Chychod Peilot) (Diwygio) 2016
    http://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/354/pdfs/uksi_20160354_en.pdf

    OS1998/1609 - Rheoliadau Llongau Masnach (Cychod Gwaith Bach a Chychod Peilot) – gweler diwygiadau uchod
    http://www.legislation.gov.uk/uksi/1998/1609/made

    MSN 1892 – The workboat code edition 2 (ar gyfer llong a adeiladwyd ar ôl 31 Rhagfyr 2018)
    https://www.gov.uk/government/publications/msn-1892-m-the-workboat-code-edition-2

    MGN 280 - Small Vessels in Commercial Use for Sport or Pleasure, Workboats and Pilot Boats – Alternative Construction Standards (ar gyfer llong a adeiladwyd cyn 31 Rhagfyr 2018)
    https://www.gov.uk/government/publications/mgn-280-small-vessels-in-commercial-use-for-sport

    SI1997/2962 – Llongau Masnach a Llongau Pysgota (Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith)
    http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1997/2962/made

    MIN 538 – Awdurdod sy’n ardystio
    https://www.gov.uk/government/publications/min-538-amendment-6-m-codes-of-practice-authorisation-of-certifying-authorities

The Workboat Code - Safon dechnegol gweithgor y diwydiant - cod ymarfer ar gyfer cychod gwaith bach sy'n cael eu defnyddio'n fasnachol yn y môr a phob cwch peilot

Workboat Code - GOV.UK (www.gov.uk)

The Workboat Code Edition 3 - (ar gyfer llongau a adeiladwyd ar ôl 13 Rhagfyr 2023).
The Workboat Code Edition 3 - GOV.UK (www.gov.uk) Dylid darllen y cod hwn ar y cyd ag OS 2023 Rhif 1216, Rheoliadau Llongau Masnach (Cychod Gwaith Bach a Chychod Peilot) 2023.
Rheoliadau Llongau Masnach (Cychod Gwaith Bach a Chychod Peilot) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk)

Bydd llongau presennol sydd wedi'u hardystio o dan God Brown, ei safon gyfatebol a gyhoeddwyd yn yr Atodiad technegol i MGN 280(M), neu'r Workboat Code Rhifyn 2, Diwygiad 1 The workboat code edition 2 - amendment 1 - GOV.UK (www.gov.uk) yn bodloni gofynion Workboat Code Rhifyn 3 erbyn archwiliad adnewyddu nesaf y llong neu dair blynedd ar ôl i'r Cod ddod i rym, p'un bynnag sydd hwyraf, ac eithrio, lle nodir cyfeiriadau at ofynion blaenorol yn benodol o fewn adrannau unigol o'r Cod, gallant gydymffurfio â gofynion o'r fath.
https://www.gov.uk/government/publications/msn-1892-m-the-workboat-code-edition-2

MIN 698 (M) Workboat Code Edition 3 – Standards and Guidelines for Best Practice. Dylid darllen yr hysbysiad hwn gyda'r Workboat Code Rhifyn 3. MIN 698 (M) Workboat code edition 3 – standards and guidelines for best practice - GOV.UK (www.gov.uk)

14. Rhaid i dystiolaeth o gydymffurfio â deddfwriaeth MCA a) gael ei harddangos ar y llong sy'n cael ei defnyddio neu b) rhaid i dystysgrif awdurdodi gan yr MCA fod ar gael bob amser wrth gasglu cocos, a'i chyflwyno i'r Swyddogion Gorfodi Morol i'w harchwilio yn ôl y galw.

15. Terfynu: Caiff Gweinidogion Cymru, yn ôl eu disgresiwn absoliwt, dynnu'r Drwydded hon yn ôl ar unrhyw adeg. Lle bo modd, cewch eich hysbysu ymlaen llaw os bydd y drwydded yn cael ei thynnu'n ôl, ond dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol, caniateir tynnu'r Drwydded hon yn ôl ar unwaith (h.y. heb hysbysiad ymlaen llaw)-

    a. mewn argyfwng;
    b. os yw Deiliad y Drwydded yn torri unrhyw un o amodau'r Drwydded hon;
    c. pe bai'n dod i'r amlwg y bydd y gweithgareddau a awdurdodir gan y Drwydded naill ai'n arwain, neu'n debygol o arwain, at effaith sylweddol ar unrhyw Safle Morol Ewropeaidd (fel y'i diffinnir gan Reoliad 8(4) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (O.S. 2010/490).

16. Mae torri unrhyw un o amodau'r Drwydded hon yn drosedd a bydd yn arwain at derfynu'r Drwydded hon ar unwaith.

Mae unrhyw un sy'n torri amodau a thelerau'r Drwydded hon yn euog o drosedd o dan adran 190 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Mae person sydd wedi ei ddyfarnu'n euog o drosedd o dan yr adran honno yn agored i ddirwy o hyd at £50,000

yn dilyn euogfarn ddiannod. Hefyd, gall y Llys orchymyn fforffedu unrhyw offer pysgota a ddefnyddiwyd yn y drosedd ac unrhyw adnoddau pysgodfeydd môr a oedd yn gysylltiedig â'r drosedd neu swm o arian sy'n cynrychioli gwerth yr offer pysgota neu'r adnoddau hynny. Gall y Llys hefyd atal y Drwydded neu anghymhwyso'r unigolyn rhag dal Trwydded o'r fath am unrhyw gyfnod sy'n addas ym marn y Llys.

Gareth Bevington, Pennaeth yr Is-adran Pysgodfeydd. Llywodraeth Cymru

Dyddiad: 28 January 2025.

Rhoddir y Drwydded hon o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru yn unol â Gorchymyn Rheoli Pysgota a Thrwyddedu Cocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024.

Sylwer:

1. Rhoddir y drwydded hon yn unol â 'Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgodfeydd Cocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024'.
2. Rhaid i Ddeiliad y Drwydded gydymffurfio â'r holl deddfwriaeth berthnasol arall (gan gynnwys pysgodfeydd a deddfwriaeth amgylcheddol)) a chael unrhyw ganiatadau a/neu awdurdodiadau angenrheidiol eraill cyn pysgota am unrhyw gocos a chymryd unrhyw gocos o'r Ardal a ddiffinnir yn yr Atodlen i'r Drwydded hon.
3. Nid yw'r drwydded yn awdurdodi defnyddio cerbydau ar dir sy'n ffinio â'r Ardal, na chael mynediad i'r tir hwnnw. Nid yw'r awdurdodiad hwn yn darparu unrhyw amddiffyniad rhag erlyniad o dan unrhyw ddeddfwriaeth arall. Nid yw'n cael unrhyw effaith mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth neu ofyniad cyfreithiol arall ac ni fydd yn darparu amddiffyniad mewn perthynas â hwy, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Traffig Ffyrdd 1988 neu unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol i ddefnyddio cerbyd.
4. Yn ogystal â darpariaethau statudol eraill, gallech fod yn cyflawni trosedd os ydych yn defnyddio cerbyd yn yr Ardal a'r ardaloedd cyfagos heb gael caniatâd ymlaen llaw gan yr holl dirfeddianwyr perthnasol (ac unrhyw gyrff perthnasol eraill) y tir rydych chi'n bwriadu teithio drosto. Hefyd, oni bai bod pob tirfeddiannwr perthnasol wedi cynnal yr holl asesiadau sy'n ofynnol o dan unrhyw ddeddfwriaeth cadwraeth natur neu amgylcheddol berthnasol (er enghraifft, o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC)) cyn rhoi caniatâd i chi ddefnyddio'ch cerbyd yn yr ardal benodedig, efallai y byddwch yn dal i fod yn cyflawni trosedd hyd yn oed os oes gennych ganiatâd perchennog y tir.
5. Dylai Deiliaid Trwydded gofio bod angen Dogfen Gofrestru (dogfennau symud yn flaenorol) gyda phob swp o gocos pan fydd yn cael ei symud o'r ardal

gynhyrchu, h.y. y gwely pysgod cregyn, neu wrth eu rhoi ar y farchnad am y tro cyntaf. Yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 853/2004, rhaid cwblhau Dogfennau Cofrestru a chynnwys manylion y casglwr, y gwely y casglwyd y pysgod cregyn ohono a'r dyddiad, cyn cludo'r cocos. Mae'r dogfennau hyn ar gael naill ai gan Gyngor Sir Abertawe sydd wedi'i leoli yn ardal Whiteford neu Gyngor Sir Gâr gan ddefnyddio'r manylion cyswllt canlynol: Dylai deiliaid trwydded gysylltu â'r Tîm Diogelwch Bwyd, Cyngor Abertawe dros y ffôn 01792 635600 neu e-bostio foodandsafety@swansea.gov.uk. Gall deiliaid trwydded hefyd gysylltu â'r tîm iechyd cyhoeddus, Cyngor Sir Gâr drwy ffonio 01267 234567 neu e-bostio publichealth@carmarthenshire.gov.uk.

6. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu gornifer cocos y gellir eu cynaeafu (Gwarged cynaeafu) o Draeth Whiteford o **174 o dunelli** ar gyfer tymor 2025. Pan fydd y gornifer hwn wedi'i gyrraedd, bydd Llywodraeth Cymru yn cau'r ardal berthnasol yn unol â 'Gorchymyn Rheoli Pysgota a Thrwyddedu Cocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024'.
7. Yn yr un modd, pe bai'n dod amlwg y bydd y gweithgareddau a awdurdodir gan y Drwydded hon yn arwain neu'n debygol o arwain at effaith sylweddol ar unrhyw Safle Morol Ewropeaidd (fel y'i diffinnir gan Reoliad 8(4) o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (O.S. 2010/490), bydd Llywodraeth Cymru yn cau'r bysgodfa.
8. Os bydd yr Ardal yn cael ei chau i weithgarwch pysgota cocos, bydd hyn yn cael ei hysbysu yn y lle cyntaf gan staff gorfodi Llywodraeth Cymru sy'n bresennol ar y safle a thrwy hysbysiadau fydd yn cael eu codi yn yr ardal honno. Bydd e-bost neu lythyr hefyd yn cael ei anfon at bob deiliad trwydded yn cadarnhau'r ardal sydd ar gau, a bydd yr hysbysiad cau perthnasol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn: https://www.llyw.cymru/pysgodfeydd-mor-rhynglanwol
9. Mae casglu cocos yn gallu bod yn beryglus ac mae'n dod ag elfen sylweddol o risg i ddiogelwch personol. Argymhellir yn gryf eich bod yn cynnal eich asesiadau iechyd a diogelwch a risg eich hun cyn cyflawni'r gweithgarwch hwn. Cofiwch nodi unrhyw ganllawiau gan ein sefydliadau partner a sefydliadau swyddogol eraill. Nid yw'r canllawiau a roddir yn gynhwysfawr a'ch cyfrifoldeb chi yw gweithredu unrhyw fesurau sy'n sicrhau eich diogelwch.
10. Ni ddylid gadael bagiau o gocos ar y gwely cocos ar ôl gorffen casglu neu byddant yn cael eu hystyried fel rhai wedi'u gadael ar ôl. Bydd unrhyw gocos wedi'u gadael ar ôl yn cael eu dychwelyd i'r gwely cocos.
11. Adeg rhoi'r drwydded hon, mae'r ardal gasglu yn ardal aber Whiteford yn cael ei chategoreiddio'n C at ddibenion casglu Cocos (C. edule).

**Dosbarth C** (≤ 46000*E. coli*/100g) − dim ond ar ôl iddynt gael eu hailosod am o leiaf ddau fis mewn ardal ailosod gymeradwy ac yna, lle bo'r angen, ar ôl iddynt gael eu trin mewn canolfan buro, eu hailosod am o leiaf dau fis mewn ardal ailosod Dosbarth A neu ar ôl proses driniaeth wres a gymeradwywyd gan y CE y gall molysgiaid gael eu gwerthu i'w bwyta gan bobl.

Ym mhob achos, rhaid bodloni'r safonau iechyd yn Atodiad III o Reoliadau 853/2004 y Comisiwn Ewropeaidd a'r meini prawf microbiolegol a fabwysiadwyd o dan Reoliad 2073/2005 y Comisiwn Ewropeaidd. Rhaid peidio â chynhyrchu na chasglu molysgiaid mewn ardaloedd lle y gwaherddir hynny.

**Gallwch weld y mapiau categoreiddio cyfredol drwy ddilyn y ddolen isod**

[Mapiau parthau dosbarthiad - Cefas (Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu)]

Eich cyfrifoldeb chi yw bod yn ymwybodol o gategori cyfredol yr ardal gasglu. Gallai hwn newid yn ystod y cyfnod agor. Os nad yw canlyniadau samplau dosbarthiad yn bodloni gofynion dosbarthiad C, bydd y gwelyau yn cau ar unwaith. Bydd hysbysiad o gau o'r fath yn cynnwys erthygl ar wefan Y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru.

# Atodlen

Yn yr Atodlen hon, mae grŵp o chwech neu wyth ffigur sy'n nodi neu'n gysylltiedig ag unrhyw bwynt yn cynrychioli cyfesurynnau map y pwynt hwnnw ar grid y system gyfeirio genedlaethol a ddefnyddir gan yr Arolwg Ordnans ar ei fapiau a'i gynlluniau.

Mae'r holl gyfesurynnau hydred a lledred a roddir mewn graddau, munudau a ffracsiynau degol o funud ac maent yn gyfesurynnau System Geodetig y Byd 1984.

Atodiad 1

Map yn dangos gwely cocos Whiteford rhwng pwyntiau Aber Llwchwr, Hills Tor a Phwynt Whiteford.




© Crown Copyright and database right 2020. Ordnance Survey 100021874.
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2020. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.

Cyfesurynnau gwely cocos Traeth Whiteford

| **TRAETH WHITEFORD** |
| --- |
| Diffiniwyd fel a ganlyn:<br>Llinell syth o'r safle:<br>A). SS 4420 9826; 51° 39'.683 Gogledd, 004° 15'.233 Gorllewin.<br>Oddi yno mewn llinell syth i'r safle:<br>B). SS 4280 9422; 51° 37'.483 Gogledd, 004° 16'.35 Gorllewin<br>Oddi yno mewn llinell syth i'r safle:<br>C). SS 4472 9670; 51° 38'.85 Gogledd, 004° 14'.75 Gorllewin<br>Oddi yno ar hyd llinell y Penllanw Astronomaidd i safle A uchod.<br>Mae map o'r ardal hon ar gael yn Atodiad 1. Gellir gweld map ar wefan Cefas yn:<br>https://www.cefas.co.uk/data-and-publications/shellfish-classification-and-microbiological-monitoring/england-and-wales/classification-zone-maps/ |

.

Atodiad 2

Map o Draeth Whiteford yn dangos mynediad o Gwm Ivy

